
# Fframwaith Perfformiad GIG Cymru 2023-2024

## Mehefin 2023



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47719, ISBN digidol 978-1-83504-202-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cyflwyniad**

Mae'r mesurau perfformiad yn Fframwaith Perfformiad GIG Cymru ar gyfer 2023-2024 yn adlewyrchu'r meysydd ffocws sy’n flaenoriaethau Gweinidogol a’r swyddogaethau cymorth craidd fel yr amlinellir hwy yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2023-2026 sef:

Blaenoriaethau Gweinidogol

1. Mynediad at Wasanaethau Gofal Sylfaenol
2. Adfer Gwasanaethau Canser
3. Oedi wrth Drosglwyddo Gofal
4. Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
5. Adfer Gofal a Gynlluniwyd; Diagnosteg a Llwybrau Gofal
6. Gofal Brys ac Argyfwng


Swyddogaethau Cymorth Craidd

1. Digidol, arloesi, technoleg a thrawsnewid
2. Y gweithlu a llesiant
3. Cynaliadwyedd ariannol
4. Sefydliadau angori

Yn ogystal, cynhwysir set fach o fesurau sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol o ran atal cyflyrau iechyd a darparu gwasanaethau diogel o ansawdd da.

Er mwyn cefnogi'r mesurau perfformiad, bydd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG hefyd gwblhau Asesiadau Sicrwydd Polisi. Mae'r asesiadau hyn yn rhoi sicrwydd pellach ynghylch rhai o’r blaenoriaethau Gweinidogol a strategaethau a llwybrau allweddol Llywodraeth Cymru na ellir eu monitro drwy fesur meintiol traddodiadol.

Mae'r holl fesurau perfformiad ac asesiadau sicrhau polisi yn Fframwaith Perfformiad y GIG wedi'u mapio'n unol â nod pedwarplyg 'Cymru Iachach':




**Cysylltiadau â Fframwaith Sicrwydd a Goruchwylio GIG Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Fframwaith Sicrwydd a Goruchwylio GIG Cymru. Bydd hwn yn nodi'r mecanwaith a'r dull o sicrhau sicrwydd gan sefydliadau GIG Cymru, yn ogystal â nodi paramedrau'r modd y bydd Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GIG Cymru.

Bydd yr egwyddorion canlynol yn sail i'r Fframwaith Sicrwydd a Goruchwylio:

- **Creu diwylliant o wella**: Bwriad y trefniadau yw cefnogi datblygiad parhaus diwylliant o sicrhau ansawdd, a gyflenwir er budd cleifion. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan amcanion clir a fydd yn ysgogi diwylliant o berfformiad uchel ac atebolrwydd.

- **Tryloywder:** Mae'r mesurau a'r meysydd cyflawni, fel y'u nodwyd yn fframweithiau GIG Cymru, wedi'u cyfleu'n glir i sefydliadau'r GIG fel eu bod yn gwybod beth sydd ei angen, yn deall sut y byddant yn cael eu hasesu, a'r broses a roddir ar waith os bydd yr hyn a gyflawnir yn is na'r lefelau disgwyliedig.

- **Ffocws cyflawni:** Bydd y dull rheoli ansawdd yn integredig, yn seiliedig ar weithredu ac yn canolbwyntio ar gyflawni gwelliannau y cytunwyd arnynt ar y cyd (rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG).

- **Cymesuredd a chydbwysedd:** Bydd y trefniadau Sicrwydd a Goruchwylio yn ceisio sicrhau bod ymyriadau a chamau gweithredu yn gymesur â maint y risg ac y cynhelir cydbwysedd rhwng her a chymorth.

- **Llinellau atebolrwydd clir**: Bydd trefniadau sicrhau ansawdd yn sicrhau bod Cadeiryddion a Swyddogion Atebol yn enwebu swyddogion arweiniol sy'n atebol am gyflawni ac yn gyfrifol am y prif ryngwyneb â'r dull goruchwylio.

- **Ennill ymreolaeth**: Bydd cyflawni yn unol â chynlluniau a llwybrau y cytunwyd arnynt yn arwain at lefelau uwch o ymreolaeth. Wrth i sefydliadau gyflawni yn erbyn disgwyliadau targed, bydd amlder a dwyster y goruchwylio yn cael eu hadolygu. I'r gwrthwyneb, defnyddir lefelau uwch o gymorth ac ymyriadau sicrhau ansawdd lle bo angen, a gellid eu hasesu fel rhan o broses uwchgyfeirio sefydliadol.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd a Goruchwylio yn cael ei gynllunio i hyrwyddo diwylliant o 'ddim byd sy’n peri syndod', gan sicrhau bod materion a phryderon sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi’n gynnar, fel y gellir mynd i'r afael â nhw cyn iddynt gael effaith o bwys neu cyn i berfformiad ddirywio ymhellach.

Bydd disgwyl i sefydliadau gynnal perthynas â Gweithrediaeth y GIG a Llywodraeth Cymru fel bod newidiadau gwirioneddol neu newidiadau posibl mewn perfformiad yn cael eu rhannu mewn modd amserol. Os oes risgiau ansawdd yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy, dylid rheoli'r rhain a'u huwchgyfeirio i Lywodraeth Cymru.

Bydd y trefniadau atebolrwydd newydd, a gefnogir gan fframwaith uwchgyfeirio diwygiedig, yn cael eu cyflwyno’n ddiweddarach eleni.

# Mesurau Cyflawni GIG Cymru 2023-2024

## Nod Pedwarplyg 1: Mae gan bobl Cymru iechyd a llesiant gwell gyda gwell mesurau atal a hunanreolaeth.

Bydd pobl yn cymryd cyfrifoldeb, nid yn unig am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ond hefyd am eu teulu ac am bobl y maent yn gofalu amdanynt, efallai hyd yn oed am eu ffrindiau a'u cymdogion.

Byddwn yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol fel un system gyfan, gyda’r gwasanaethau yn un elfen yn unig wrth gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant drwy gydol eu bywydau. Bydd yn system ‘iachusrwydd’ sy’n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.

| Thema’r Nod Pedwarplyg | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| **Atal** | 1. Canran yr ysmygwyr sy'n oedolion sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu<br>2. Canran y bobl a atgyfeiriwyd at wasanaethau'r bwrdd iechyd sydd wedi cwblhau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau (cyffuriau neu alcohol)<br>3. Canran y plant sydd wedi cael y brechiadau wedi'u trefnu erbyn eu bod yn 5 oed (y brechiad atgyfnerthu cyn-ysgol '4 mewn 1', y brechiad atgyfnerthu Hib/MenC a’r ail ddos o MMR)<br>4. Canran y merched sy’n cael y brechiad Papiloma Dynol (HPV) erbyn eu bod yn 15 oed<br>5. Canran yr oedolion 65 oed a hŷn sydd wedi cael y brechiad ffliw<br>6. Canran y bobl sydd wedi cael brechiad COVID-19, o blith y rhai sy’n gymwys<br>7. Canran y cleifion a gafodd gynnig archwiliad colonosgopi mynegol o fewn 4 wythnos i drefnu eu hapwyntiad asesu gan Ymarferydd Sgrinio Arbenigol<br>8. Canran y babanod iach sy’n cychwyn y rhaglen sgrinio clyw babanod newydd-anedig ac yn cwblhau’r sgrinio o fewn 4 wythnos<br>9. Canran y babanod newydd-anedig cymwys sydd â chanlyniad sgrinio smotyn gwaed pendant erbyn diwrnod 17 eu bywyd |

## Nod Pedwarplyg 2: Mae gan bobl Cymru wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch, wedi'u hwyluso gan dechnoleg ddigidol a'u cefnogi gan ymgysylltu.

Bydd system deg, sy'n sicrhau canlyniadau iechyd cyfartal i bawb yng Nghymru. Bydd yn gwella llesiant corfforol a meddyliol pawb, drwy gydol eu bywydau, o'u genedigaeth hyd at ddiwedd urddasol.

Bydd gwasanaethau'n ddi-dor ac yn cael eu darparu mor agos i'r cartref â phosibl. Bydd gwasanaethau ysbytai yn cael eu llunio i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty, a chyflymu adferiad. Bydd symud y pwyslais at adnoddau yn y gymuned yn golygu bod modd cyrraedd at ofal mewn ysbyty yn gynt pan fo angen hynny.

| Thema'r Nod Pedwarplyg | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| **Darparu Gwasanaethau yn Agos i'r Cartref** | 10. Canran y practisau meddygon teulu sydd wedi cyflawni'r holl safonau a nodir yn y Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth yn ystod oriau'r feddygfa<br>11. Canran gwerth y contract gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol a ddarparwyd (ar gyfer cyrsiau triniaeth i gleifion newydd, cleifion newydd brys a chleifion hanesyddol)<br>12. Nifer y cleifion a atgyfeiriwyd o ofal sylfaenol (Optometreg ac Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol) at wasanaethau Offthalmoleg gofal eilaidd<br>13. Nifer yr ymgyngoriadau a ddarparwyd drwy'r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol gan Fferyllwyr<br>14. Canran asesiadau'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol a gynhaliwyd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn atgyfeiriad ar gyfer pobl o dan 18 oed<br>15. Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol ar gyfer pobl o dan 18 oed<br>16. Canran asesiadau'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol a gynhaliwyd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn atgyfeiriad ar gyfer oedolion 18 oed a throsodd<br>17. Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol ar gyfer oedolion 18 oed a throsodd |

| Thema'r Nod Pedwarplyg | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| **Mynediad at Wasanaethau Ysbyty yn Gyflym** | 18. Canran yr ymatebion brys i alwadau coch sy'n cyrraedd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 8 munud<br>19. Amser canolrifol yr ymateb brys i alwadau oren<br>20. Yr amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng i frysbennu gan glinigwr<br>21. Yr amser canolrifol o gyrraedd adran argyfwng i asesiad gan uwch-benderfynwr clinigol<br>22. Canran y cleifion sy'n treulio llai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal argyfwng mawr a mân (h.y. damweiniau ac achosion brys) o'r adeg cyrraedd i'r adeg derbyn, trosglwyddo neu ryddhau<br>23. Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal argyfwng mawr a mân mewn ysbytai, o'r adeg cyrraedd i'r adeg derbyn, trosglwyddo neu ryddhau<br>24. Canran y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth ganser ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o'r pwynt amheuaeth (waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio)<br>25. Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am brawf diagnostig penodol<br>26. Canran y plant (o dan 18 oed) sy'n aros 14 wythnos neu lai am Weithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd penodedig<br>27. Nifer y cleifion (o bob oed) sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapi penodol (gan gynnwys awdioleg)<br>28. Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad claf allanol newydd<br>29. Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos am apwyntiad claf allanol newydd<br>30. Nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad claf allanol dilynol sy'n profi mwy na 100% o oedi<br>31. Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 104 wythnos i gael eu hatgyfeirio at driniaeth<br>32. Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 52 wythnos i gael eu hatgyfeirio at driniaeth<br>33. Canran y cleifion sy'n aros llai na 28 diwrnod am apwyntiad cyntaf ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol (sCAMHS)<br>34. Canran y plant a'r bobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau asesiad niwroddatblygiad ADHD neu ASD<br>35. Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol Iechyd Meddwl Oedolion Arbenigol |

## Nod Pedwarplyg 3: Mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn frwdfrydig a chynaliadwy.

Bydd modelau gofal newydd yn cynnwys dull tîm amlddisgyblaethol eang lle mae pobl sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion a dewisiadau unigolion.

Bydd proses o gynllunio’r gweithlu ar y cyd, gyda phwyslais ar staff yn ehangu eu sgiliau cyffredinol ac yn gweithio ar draws ffiniau proffesiynol.  Bydd partneriaeth strategol yn cefnogi hyn gyda darparwyr addysg ac academïau dysgu sy'n canolbwyntio ar allu ac arweinyddiaeth broffesiynol.

| Thema’r Nod Pedwarplyg | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| **Gweithlu Brwdfrydig a Chynaliadwy** | 36. Canran cyfradd absenoldeb oherwydd salwch staff<br>37. Cyfradd trosiant staff cofrestredig nyrsio bydwreigiaeth sy'n gadael GIG Cymru<br>38. Gwariant ar asiantaethau fel canran o gyfanswm y bil cyflog |
| **Hyfforddi a Datblygu** | 39. Canran y staff, yn ôl sefydliad, sydd wedi cael Adolygiad Arfarnu a Datblygu Personol / arfarniad meddygol yn y 12 mis blaenorol (gan gynnwys meddygon a deintyddion dan hyfforddiant) |

## Nod Pedwarplyg 4: Mae gan Gymru system iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch sydd wedi dangos gwelliant ac arloesedd yn gyflym, wedi'i hwyluso gan ddata a chanolbwyntio ar ganlyniadau.

Bydd cyflawni gwerth uwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn ac ar sicrhau bod ein gwasanaethau'n ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar bobl, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg. Bydd hyn yn rhoi lle blaenllaw i'r unigolyn ac yn ystyried gwerth cymharol gwahanol opsiynau gofal a thriniaeth, yn unol ag Iechyd Darbodus.

Bydd gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwella yn cael ei ddwyn ynghyd ar draws rhanbarthau - gan weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, prifysgolion, diwydiannau a phartneriaid eraill. Bydd proses o alinio ffrydiau cyllido a rheoli perfformiad ac atebolrwydd integredig ar draws y system gyfan i gyflymu'r broses drawsnewid trwy gyfuniad o gymorth cenedlaethol, cymhellion, rheoleiddio, meincnodi a thryloywder.

| Thema'r Nod Pedwarplyg | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| **Gwasanaethau Effeithiol** | 40. Canran y cyfnodau gofal a gafodd eu codio'n glinigol o fewn un mis adrodd ar ôl y dyddiad rhyddhau<br>41. Canran y gwallau codio ym mhob dosbarthiad a gywirwyd erbyn cyflwyno'r adroddiad misol nesaf ar ôl iddynt gael eu canfod |
| **Gwasanaethau Effeithlon** | 42. Canran y galwadau a ddaeth i ben yn dilyn asesiad ffôn gan Wasanaethau Ambiwlans Cymru (Clywed a Thrin)<br>43. Nifer yr achosion o ryddhau wedi'i ohirio mewn Llwybrau Gofal |
| **Gofal sy'n Canolbwyntio ar Bobl** | 44. Canran preswylwyr y bwrdd iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys ar gyfer pobl o dan 18 oed<br>45. Canran preswylwyr y bwrdd iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth dilys ar gyfer oedolion 18 oed a throsodd<br>46. Nifer yr arolygon profiad cleifion a gwblhawyd ac a gofnodwyd ar CIVICA |

| Thema'r Nod Pedwarplyg | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| **Gwasanaethau Diogel** | 47. Nifer cronnol yr achosion o bacteremia a gadarnhawyd mewn labordy: Klebsiella sp a; Pseudomonas aeruginosa<br>48. Cyfradd gronnol yr achosion o facteremia a gadarnhawyd mewn labordy fesul 100,000 o'r boblogaeth: E.coli a S.aureus (MRSA ac MSSA)<br>49. Cyfradd gronnol yr achosion o C.difficile a gadarnhawyd mewn labordy fesul 100,000 o'r boblogaeth<br>50. Canran yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn yr ysbyty a oedd â dechrau pendant yn yr ysbyty (>14 diwrnod ar ôl cael eu derbyn)<br>51. Canran yr apwyntiadau offthalmoleg R1 a fynychwyd a oedd o fewn eu dyddiad targed clinigol neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed clinigol<br>52. Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros awr<br>53. Nifer y digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol sy'n parhau'n agored am 90 diwrnod neu fwy |

# Asesiadau Sicrwydd Polisi GIG Cymru 2023-2024

## Nod Pedwarplyg 1: Mae gan bobl Cymru iechyd a llesiant gwell gyda gwell mesurau atal a hunanreolaeth.

Bydd pobl yn cymryd cyfrifoldeb, nid yn unig am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ond hefyd am eu teuluoedd ac am y bobl y maent yn gofalu amdanynt, a hyd yn oed efallai eu ffrindiau a'u cymdogion.

Byddwn yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol fel un system gyfan, gyda’r gwasanaethau yn un elfen yn unig o gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant drwy gydol eu bywydau. Bydd yn system 'llesiant' sydd â’r nod o gefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael.

| Thema’r Nod Pedwarplyg | Asesiad Sicrwydd Polisi |
|---|---|
| **Atal** | a. Adroddiad ansoddol sy'n manylu ar weithredu Helpa Fi i Stopio mewn gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu mewn ysbytai<br>b. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar gynnydd o ran lleihau ysmygu yn ystod beichiogrwydd<br>c. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar gynllun y Byrddau Iechyd i weithredu Llwybr Rheoli Pwysau GIG Cymru |

## Nod Pedwarplyg 2: Mae gan bobl yng Nghymru wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch, wedi'u galluogi gan wasanaethau digidol ac wedi'u cefnogi gan ymgysylltu.

Bydd system deg, sy'n sicrhau canlyniadau iechyd cyfartal i bawb yng Nghymru. Bydd yn gwella llesiant corfforol a meddyliol pawb, drwy gydol eu bywydau, o'u genedigaeth hyd at ddiwedd urddasol.

Bydd gwasanaethau'n ddi-dor ac yn cael eu darparu mor agos at y cartref â phosibl. Bydd gwasanaethau ysbytai yn cael eu cynllunio i leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty, a chyflymu adferiad. Bydd symud y pwyslais i adnoddau yn y gymuned yn golygu bod modd cyrraedd at ofal mewn ysbyty yn gynt pan fo angen hynny.

| Thema'r Nod Pedwarplyg | Asesiad Sicrwydd Polisi |
|---|---|
| **Darparu Gwasanaethau yn Agos i'r Cartref** | d. Adroddiad ansoddol sy'n rhoi sicrwydd ar wella mynediad at feddygon teulu<br>e. Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n hygyrch ac ar gael i glystyrau yn ôl ardal ddaearyddol y Bwrdd Iechyd/Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br>f. Adroddiad ansoddol sy'n manylu ar y cynnydd o ran gwreiddio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal Profedigaeth yng Nghymru a'r Llwybr Profedigaeth Cenedlaethol<br>g. Adroddiad ansoddol sy'n manylu ar y cynnydd o ran datblygu dull ysgol gyfan ar gyfer gwasanaethau mewngymorth CAMHS |

## Nod Pedwarplyg 3: Mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn frwdfrydig a chynaliadwy.

Bydd modelau gofal newydd yn cynnwys dull tîm amlddisgyblaethol eang lle mae pobl sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion a dewisiadau unigolion.

Bydd trefniadau cynllunio’r gweithlu ar y cyd ar waith gyda phwyslais ar ehangu sgiliau cyffredinol staff a gweithio ar draws ffiniau proffesiynol. Bydd partneriaeth strategol yn cefnogi hyn gyda darparwyr addysg ac academïau dysgu yn canolbwyntio ar allu ac arweinyddiaeth broffesiynol.

| Thema’r Nod Pedwarplyg | Asesiad Sicrwydd Polisi |
|---|---|
| **Gweithlu Brwdfrydig a Chynaliadwy** | h. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar y cynnydd a wnaed wrth baratoi i wreiddio dangosyddion Safonau Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ac adrodd arnynt<br>i. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar y cynnydd a wnaed yn unol ag amcanion cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a flaenoriaethwyd gan y sefydliad |
| **Hyfforddi a Datblygu** | j. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar y cynnydd o ran gwella gofal dementia (gan ddarparu tystiolaeth o hyfforddiant a datblygiad yn unol â Gwaith Da – Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia) a chynyddu mynediad at ddiagnosis amserol |

**Nod Pedwarplyg 4: Mae gan Gymru system iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch sydd wedi dangos gwelliant ac arloesedd yn gyflym, wedi'i hwyluso gan ddata a chanolbwyntio ar ganlyniadau.**

Bydd sicrhau gwerth uwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar ganlyniadau sydd o bwys i'r unigolyn ac yn gwneud ein gwasanaethau'n ddiogel, yn effeithiol, yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar bobl, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg. Bydd hyn yn rhoi'r unigolyn yn gyntaf ac yn ystyried gwerth cymharol y gwahanol opsiynau gofal a thriniaeth, yn unol â Gofal Iechyd Darbodus.

Bydd gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwella yn cael ei ddwyn ynghyd ar draws rhanbarthau – gan weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, prifysgolion, diwydiannau a phartneriaid eraill. Bydd trefniadau alinio ffrydiau ariannu a rheoli perfformiad ac atebolrwydd integredig ar waith ar draws y system gyfan i gyflymu'r broses o drawsnewid drwy gyfuniad o gymorth cenedlaethol, cymhellion, rheoleiddio, meincnodi a thryloywder.

| Thema’r Nod Pedwarplyg | Asesiad Sicrwydd Polisi |
|---|---|
| **Gwasanaethau Effeithiol** | k. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar dystiolaeth bod GIG Cymru yn datblygu ei ddealltwriaeth a'i rôl o fewn yr Economi Sylfaenol drwy gyflwyno'r Rhaglen Economi Sylfaenol mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>l. Adroddiad sy’n manylu ar dystiolaeth bod GIG Cymru yn gwreiddio Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth o fewn cynlluniau strategol a phrosesau gwneud penderfyniadau sefydliadau |
| **Gwasanaethau Effeithlon** | m. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar y cynnydd yn unol â chynlluniau'r byrddau iechyd i leihau oedi mewn llwybrau gofal<br>n. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar y cynnydd o ran cyfraniad GIG Cymru at ddatgarboneiddio fel yr amlinellir yng nghynllun y sefydliad |
| **Gofal sy'n Canolbwyntio ar Bobl** | o. Adroddiad ansoddol sy’n manylu ar y cynnydd yn unol â’r meysydd blaenoriaeth i wella bywydau pobl ag anableddau dysgu |